# DINESYDD

## Medi

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1983

Rhif 99


# DECHRAU TYMOR



Bu aelodau o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cerdded o Fôn i Gaerdydd yn galw am sefydlu corff arbennig i hyrwyddo'r Gymraeg ym myd addysg. Cyrhaeddodd y fintai y Swyddfa Gymreig brynhawn Sadwrn, 20fed o Awst a chynhaliwyd rali yno.

Gwnaed camau breision ym myd addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Yma yng Nghaerdydd gwelwyd sefydlu pedair ysgol gynradd Gymraeg ac un ysgol uwchradd. Mae'r ysgol uwchradd gyntaf i gymryd plant Caerdydd, Ysgol Rhydfelen, bellach yn dathlu ei phenblwydd yn unarhugain.

Dyma'r amser felly i asesu yn union sut fach o dyfiant a fu a lle i fynd nesaf.

Byddai'n ddiddorol cymryd arolwg o'r holl ddisgyblion a aeth i Rydfelen (neu unrhyw un arall o ysgolion dwyieithog Cymru) mewn blwyddyn arbennig, a gweld beth yn union yw arwyddocad y Gymraeg iddynt bellach. Faint ohonynt sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â bywyd Cymraeg eu bro? Faint ohonynt sy'n defnyddio'r iaith yn eu gwaith? Faint ohonynt sy'n magu eu plant i siarad yr iaith? Byddai'r atebion yn sioc ac yn siom i amryw, mae'n siwr, ond rhaid edrych yn wrthrychol ar lwyddiant (ac yn y bôn nid oes amheuaeth nad stori o lwyddiant yw hi) y gorffennol er mwyn gallu cynllunio yn effeithiol at y dyfodol.

Ffenomena ryfedd arall ym myd addysg Gymraeg yw i rieni dynnu eu plant o ysgol Gymraeg a'u trosglwyddo i ysgol Saesneg ei hiaith. Ydy, mae'n ddechrau tymor, ond tymor mudo yw hi i amryw o blant, wrth iddynt adael ysgol gynradd Gymraeg am ysgol uwchradd Saesneg, neu adael yr ysgol lle gwnaethant eu lefel 'O' am ysgol arall er mwyn astudio at y lefel 'A'. Bu achosion achlysurol o'r arfer hwn ar hyd y blynyddoedd, hyd yn oed ymhlith rhai Cymry pybyr oedd wedi brwydro am yr ysgolion Cymraeg yn y lle cyntaf. Pam tybed? Lle nad oes modd dilyn y cwrs a ddymuna'r disgybl, wrth gwrs, mae'r peth yn ddealladwy, ond beth am y gweddill? Ai anfodlon gyda safon yr addysg y mae'r rhieni? Neu oes ryw reswm arall?

Pa mor gyffredinol yw newid ysgolion fel hyn yn y sector addysg yn gyffredinol? A oes hawl gan neb ddisgwyl teyrngarwch digwestiwn i'r egwyddor o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar bob lefel o addysg?

Cyn bwrw ati i gynllunio dim at y dyfodol, dylid cael trafodaeth genedlaethol onest am yr holl gwestiynau hyn, fel y gall y corff y mae Cymdeithas yr Iaith yn ei arfaethu adeiladu i'r dyfodol ar sail cryfderau'r gorffennol, yn hytrach na'r gwendidau.

********


Mwy am ddathliadau 21 Rhydfelen oddi mewn.
Gweler hefyd Golygyddol.

# GOLYGYDDOL

Un hoff o fwrw ei lach ar rai o wartheg sanctaidd y genedl yw Dafydd Ellis Thomas, A.S. Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol bu'n siarad yn erbyn yr elfen gystadleuol sydd wrth wraidd yr Wyl(!!). Y llynedd bu'n rhoi'r Saboth Sych Cymreig yn ei le. Nawr, mae wedi llefaru ar y papurau bro.

Cyhuddodd y papurau bro o fod yn gaer i swcwr ceidwadol a hiraethus. Dywedodd fod ynddynt ormod o edrych yn ôl a bod yn fodlon ar y <u>status quo</u>.

Yr hyn mae'r aelod seneddol heb ei ddeall yw mai Cymry y gwahanol froydd sy'n creu'r papurau bro. A phobl geidwadol, ddi-blwc a digynnwrf yw'r Cymry. Dyna pam nad oes gennym fwy na dau aelod seneddol Plaid Cymru. Siawns nad yw dadansoddwr craff fel Mr. Thomas, o bawb, wedi sylweddoli hynny eto.

Gwaith y gwleidydd yw perswadio trwch y genedl i newid cyfeiriad. Gwaith papur bro yw gwasanaethu ei fro. Y Bobl Biau'r Papurau Bro.

Ar ôl dweud hynny, cyd-resynwn gyda Mr. Thomas mai myth bellach yw traddodiad radicalaidd y Cymry. (Gobeithio nad yw hynny'n swnio'n rhy hiraethus!)

Mae'r DINESYDD yn ymwybodol iawn mai o gyfeiriad ceidwadol, cysurus a chysglyd bywyd Cymreig y ddinas y daw trwch ei gefnogaeth. Gwnaed apêl droeon yn y papur hwn am gyfraniadau o gylchoedd cymdeithasol eraill ac o ardaloedd megis Splott a Threlai, nad ydynt bron byth yn cael eu crybwyll, er fod nifer o Gymry Cymraeg yn byw yno. A dyna ichi ganu pop, myfyrwyr, y colegau a'r tafarndai. Dim ond yn achlysurol iawn y bydd y DINESYDD yn talu sylw i'r cylchoedd hynny hefyd, er gwneud cais lawer tro am newyddion a chlecs. Beth amdani? Yn hytrach na chwyno, codwch y ffôn, neu rhowch bwt yn y post.

Diolch i Mr. Thomas am agor ar drafodaeth genedlaethol ar y papurau bro. Maent yn rhy bwysig i'w trin gyda rhyw barchedig ofn anfeirniadol. Trueni, serch hynny, iddo droi buwch sanctaidd yn fwch dihangol.

********

Buwch sanctaidd arall, mae'n debyg, fu S4C. Ar ôl yn agos i flwyddyn mae'r mis mêl drosodd, a diau fod llawer wedi rhoi pleser dibendraw a chodi gwrychyn. Felly, dyma'ch cyfle i fynegi eich barn. Yn y rhifyn hwn o'r DINESYDD ceir holiadur. Llenwch ef a dychwelwch ef. Caiff y DINESYDD 10c am bob ffurflen a ddychwelir. Dyma eich cyfle chi i roi S4C yn ei le. Ni all brifio heb feirniadaeth. Nid braint yw'r sianel hon bellach, ond hawl.

*********

Hawl hefyd yw addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ddechrau tymor newydd fel hyn cofiwn am frwydr rhieni yr hen Bryntaf (Ysgol Bro Eurwg bellach) dros addysg o fewn cyrraedd i'w cartrefi, yn hytrach na gorfod croesi'r ddinas. Deallwn i lawer orfod meddwl yn galed a oedd hi'n deg i'w plant deithio mor bell o'u cynefin bob dydd.

Cydymdeimlir â'u pryder a chadwn lygad ar dwf yr ysgol hon i'r dyfodol. Os yw ei lleoliad yn mynd i fod yn llestair i'w ffyniant, bydd yn rhaid meddwl eto.

Yn wir, mae lle i gredu, yn ôl tystiolaeth ein herthygl flaen y mis hwn, fod angen "meddwl eto" ynglŷn â holl faes addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid fod angen ailfeddwl yr egwyddor o gwbl. Ond mae angen ail-ddiffinio'r nod a sylweddoli pa mor bell yr ydym o'i gyrraedd.

-----------

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru ac i'r Swyddfa Gymreig am eu cefnogaeth ariannol at gostau'r Dinesydd.

---

Mae'r DINESYDD yn croesawu cyfraniadau gan unrhyw un o'i ddarllenwyr ac yn barod i'w cyhoeddi o dan ffugenw os dymuna'r awdur. Fodd bynnag, rhaid i'r Golygydd dderbyn enw a chyfeiriad llawn a chywir pob cyfranwr. Petai Ifor Fawr yn danfon y manylion hyn atom, byddai'n bleser gennym gyhoeddi ei lith amserol. Gol.

-----------

## 6ed o AWST YNG NGHAERDYDD

Roeddwn yn sefyll yng nghanol dinas Caerdydd ger-llaw siop Evan Roberts pnawn Sadwrn y 6ed o Awst. Roedd yr haul yn eiriasboeth a'r awyr yn las hyfryd. O'r tu cefn imi roedd hi'n ferw glân - torfeydd yn heidio i weld beth oedd y miri a dyrrai o gyfeiriad Neuadd Dewi Sant - sŵn cerddoriaeth, bandiau pres, sŵn esgidiau caled yn taro'n unsain i guriad y drwm, bwm, bwm yn bwhwmian yn glir ac yn groyw a bron na chredwn fod ffenestri gwydr plât y Siop Nwy yn crynu yn eu hunfan wrth i'r miri nesau. Roedd 'na awyrgylch pantomeim yn y gwynt - y loriau wedi eu haddurno'n daclus i gyfleu darlun o Gaerdydd yn y dyddiau gynt, y dorf yn chwifio dwylo a rhyfeddu at gywreinrwydd y blodau a'r rhubanau, y gwisgoedd a'r syniadau, a thrydan yn melltio trwyddynt draw.

Yma ac acw ymysg yr ysgafnder - rhwng lori 'Memory Lane' y cacenau a'r llong a hwyliai'r sianel i Fryste, roedd 'na niferoedd lawer o drafnidiaeth y fyddin, yn danciau, yn loriau, yn fawr a mân, a milwyr arfog ymhob un ohonynt gyda'u gynnau a'u hesgidiau yn sgleinio. Ar dŵr y castell gyferbyn, ynghanol y rhes o faneri lliwgar o'r gwahanol wledydd, safai criw arall o filwyr, a mwy ohonynt eto wrth borth y castell ac o amgylch y muriau. Yno hefyd roedd mwy o'u harfau, yn hofrenydd, yn awyren, yn ynnau mawr ac yn y blaen. Rhan o'r Tatŵ wrth reswm meddech, ia siwr, a'r pasiant arall yn rhan o sioe'r Arglwydd Faer; iawn eto.

Trois fy mhen i'r cyfeiriad croes a syllu i lawr Stryd y Frenhines rhwng ysgwyddau rhes o heddlu llydan yn eu crysau glas. Yn cerdded yn rhes ddistaw tuag ataf roedd 'na griw o bobl, ifanc rhan fwyaf, ambell un a'i wyneb wedi ei beintio yn ddu a gwyn, ac ambell un arall yn cario poster yn darogan eu dymuniad i gael gwared o'r gwarchae niwclear o dir Cymru a Phrydain a'r byd. Gorymdaith CND oedd hon, nid oedd yn niferus o ran rhif ond roedd eu neges yn cael ei gyflwyno mewn ffordd syml a chlir. Cerdded i fyny at y mur plismyn ac yn troi yn ôl a cherdded yn hamddenol mewn

cylch am beth amser.

Wedi darfod fy siopa fe es gartref i geisio manteisio ar wres yr haul a chael cyfle i dorheulo. Yna gafael yn y papur dyddiol a dechrau darllen, a dyna lwmp mawr yn dod i'm gwddf wrth ddarllen mai heddiw i'r diwrnod, tri deg wyth o flynyddoedd yn ôl y dinistrwyd dinas Hiroshima yn Siapan gan y bom dieflig hwnnw a chwalodd pawb a phopeth yn yfflon dan ei gwmwl madarchaidd. Daeth neges y pantomeim yn fwy byw imi wedyn.

Ar y dde mewn mwy nag un ystyr, dyna gynrychiolaeth y wladwriaeth. Roedd holl rym y lluoedd arfog tu cefn iddynt yn ymdeithio'n hy ac yn uchel, yn sicr ac yn fodlon mai ganddynt hwy oedd yr hawl i ddathlu rhyddid yn ei iawn wisg. Gwarchodwyr rhyddid yn cyhoeddi i'r holl ddinasyddion mai trwy rym arfau, a mwy a mwy o arfau y gellid amddiffyn y gwan.

Ar y chwith, cynrychiolwyr cydwybod trwch y boblogaeth, yn herio'r wladwriaeth i ddatgan yn glir mai trwy ymwrthod ag arfau niwclear a diarfogi y dylid dathlu penblwydd y gwarchae uffernol ar ddinasoedd Siapan, a gwyrdroi penderfyniadau anfoesol y llywodraeth bresennol. Miloedd o bobl wedi eu lladd ar y diwrnod hwnnw ddeunaw ar hugain o flynyddoedd yn ôl - miloedd o bobl o hyd yn marw o effaith hir-barhaus y clwy na wyr am fendio. Faint mwy sydd yn rhaid marw cyn i'r wladwriaeth sylweddoli maint eu camgymeriadau.

A'r act olaf yn y pantomeim dydd Sadwrn - rhwng y ddwy garfan, yn gwneud eu dyletswyddau bid siwr - yr heddlu. Eu cefnau at garfan fawr y fyddin, eu hwynebau at griw bychan CND. A'i o ofn tybed yr edrychent gyda llygaid barcud ar y brotest heddychlon - am heddwch, yntau gyda balchder o holl fawredd y fyddin niferus gyda'u harfau bondigrybwyll. Pwy ŵyr, ond mae'n eironig fod yn rhaid cadw heddychwyr rhag tarfu ar yr arfog rai ynghanol eu pobl eu hunain. Ynteu a ydi'r neges yn dechrau treiddio'r mur anweladwy a'u bod ofn yr effaith ar y milwyr a'u tanciau.

Tybed a welwn ni y dydd?

Rhodri Gwyn Jones.

# Y CALENDR

Medi:

5 Cyfarfod Grŵp Cymraeg YDN Caerdydd; Tŷ'r Crynwyr, Heol Siarl - 7.30 p.m.

8 Cyfarfod Agoriadol Merched y Wawr, Cangen y Garth. Neuadd y Pentref, Pentyrch, 8.00 o'r gloch. Noson yng nghwmni doniau ifanc Rhydfelen. Croeso i aelodau newydd.

12 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30 p.m. 'Athrylith yr Iaith' gyda Mary Wiliam.

15 Cylch Cinio Merched Caerdydd; Gwesty'r Thatcher, Llanishen; 7.30 p.m.; Prif Westai: Noel Williams.

16 Cymry'r Wenallt; Yn y Pantmawr, 8 o'r gloch, gyda Huw Llywelyn Davies.

20 a 21 Theatr Arena y Sherman 7 p.m.; Cwmni'r Gadwyn (Cymdeithas Ddrama Gymraeg Radur) yn cyflwyno Y TAD A'R MAB gan John Gwilym Jones. Tocynnau o Swyddfa'r Sherman.

21 Theatr Arena y Sherman 7 p.m.; Cwmni'r Gadwyn (Cymdeithas Ddrama Gymraeg Radur) yn cyflwyno Y TAD A'R MAB gan John Gwilym Jones. Tocynnau o Swyddfa'r Sherman.

22 Clwb y Dwrlyn. Noson Agoriadol: Rhisiart Arwel a Merched y Garth, Clwb Rygbi Pentyrch.

Hydref:

1 Rhialtwch Rhiwbeina, Neuadd y Sgowtiaid, Rhiwbeina, 8 - 11.45 p.m. Tocynnau £3.

3 Cyfarfod Grŵp Cymraeg YDN Caerdydd; Tŷ'r Crynwyr, Heol Siarl - 7.30 p.m.

3 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, Gwesty'r Parc, 7.30 p.m. Prif Westai: John Elfed Jones, Ysw., Cadeirydd Bwrdd Dŵr Cymru.

10 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30 p.m. Noson o adloniant yng nghwmni Côr Canolfan Caerdydd.

10 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd yng Nghapel y Methodistiaid, Yr Eglwysnewydd (gyferbyn â'r Llyfrgell a Siop Jennifer). Y Llywydd: Mr. D. Gwyn Jones, 7.30

14 Cymry'r Wenallt yn y Masons Arms, Yr Eglwys newydd, 8 o'r gloch; Noson Geilys.

22 Rali YDN - Llundain. Trên arbennig o Gaerdydd. Cysylltwch â Meinir Vittle - 752522 - am fwy o fanylion.

Tachwedd

7 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, Gwesty'r Parc, 1.00 p.m.; Prif Westai: Hywel Gwynfryn.

11 Cymry'r Wenallt; yn y Pantmawr am 8 o'r gloch, gyda Gwynfor Hughes ar ei ymweliad â Rwsia.

14 Cymry'r Eglwysnewydd, Capel y Methodistiaid, Yr Eglwysnewydd; Noson gyda Mrs. Beti Wyn Davies. 7.30 p.m.

14 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30 p.m. Bywyd a gwaith Joseph Parry gyda Dulais Rhys.

Rhagfyr:

5 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30 p.m. Croesawn gangen y Barri.

5 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, Gwesty'r Parc, 7.30 p.m.; Prif Westai: Gwyn Griffiths, BBC,

9 Cymry'r Wenallt, yn y Pantmawr am 8 o'r gloch. Cwis.

12 Cymry'r Eglwysnewydd, Capel y Methodistiaid, (gyferbyn â'r Llyfrgell), gyda Mrs. Mair Robins a pharti plant Ysgol Melin Gruffydd.

Ionawr:

9 Cymry'r Eglwysnewydd, yng Nghapel y Methodistiaid (gyferbyn â'r Llyfrgell), 7.30; Yng ngofal yr aelodau.

## STORI WERIN GYFOES

Un tro, roedd amgueddfa werin yn byw mewn castell hardd ar gyrion dinas. Yno roedd nifer o dywysogion a thywysogesau yn gweithio'n galed ar gorn yr iaith Gymraeg ac yn ennyn parch y bobl am eu bod nhw'n credu'n siŵr fod y castell a phawb a lafuriai yno yn gwarchod a diogelu pethau gorau'r genedl. Onid oedd y sefydlydd wedi dweud y byddai'r Amgueddfa Werin yn "taflu allan yn gyson ffrydiau o'r ynni cenedlaethol sy'n anhepgor i fywiocau pob adran o'r bywyd Cymreig"?

Yna, un diwrnod, daeth dieithriaid o gastell arall yn y ddinas - castell o'r enw'r Swyddfa Gymreig - i weld y tywysogion a'r tywysogesau. Arolygwyr staffio oedd y dieithriaid hyn. Cewri cas oeddynt yn cario bwndeli o ffurflenni uniaith Saesneg ac yn mynnu fod pob un o'r tywysogion a'r tywysogesau yn cael eu cyfweld yn Saesneg er mwyn egluro beth yn union oedd eu dyletswyddau yn y gaer hon o Gymreictod.

Roedd ansensitifrwydd y Swyddfa Gymreig wrth drafod y werin eisoes yn ddiarhebol. Bodlonodd chwaer fawr yr Amgueddfa Werin - yr Amgueddfa Genedlaethol - a drigai mewn castell mawr arall yn y ddinas, heb fod nepell o gastell y Swyddfa Gymreig, ar y drefn uniaith hon.

Ond och! Ymateb llywaeth iawn a gafwyd gan yr Amgueddfa Werin hithau. Trefnodd un tywysog glandeg ddeiseb. Gwae ef o'i wrhydri! Nid oedd fawr neb o'i gydweithwyr yn fodlon ei llofnodi. Ni welai'r rhelyw o'r staff ddim byd yn od mewn cael arolwg uniaith Saesneg ar waith yr amgueddfa.
Fodd bynnag, bu'r Swyddfa Gymreig yn drugarog a darparwyd fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni. Serch hynny, dychwelwyd y rhan fwyaf ohonynt yn uniaith Saesneg. Dewisodd rhai lenwi'r ddwy fersiwn. Does dim gwobrau am ddyfalu beth ddigwyddodd i fersiynau Cymraeg y bobl hynny. Awyrennau papur, efallai? Plu'r gweunydd yn y gwynt!

Stori sy'n dal i fynd rhagddi yw'r saga drist hon. Dywedodd y Swyddfa Gymreig y câi aelod o staff yr Amgueddfa Werin weithredu fel cyfieithydd yn ystod cyfweliadau preifat ei gydweithwyr. Cyfaddawd anfoddhaol a dirmygus. Bisnes y Swyddfa Gymreig ei hun oedd darparu cyfieithydd annibynnol. Nid yw'n syndod mai un yn unig hyd yma a ddewisodd y dull hwn o gyfweliad.

Troes y gweddill o warchodwyr ein buddiannau gwerin i'r iaith fain. Diau mai mawr fu'r sôn yn Saesneg am eu gwaith amhrisiadwy yn cadw hanes yr hen Welsh Folk i'r oesoedd a ddel. Gorau gwerin, gwerin mewn amgueddfa, mae'n ymddangos.

Oedd, roedd Iorwerth C. Peate am weld "ffrydiau o ynni" yn cael eu "taflu allan"...ond nid trwy'r ffenestr, ychwaith!

## GRŴP MAM A'I PHLENTYN, HEOL CONWY

Bydd y Grŵp yn cyfarfod bob prynhawn dydd Gwener am 2.00 p.m., yn dechrau ar y 16eg o fis Medi, yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy. Bydd croeso i famau a'u plent o dan 2½ oed (Cymraeg neu ddi-Gymraeg). Fel arfer mae'r plant yn mynd ymlaen at Ysgol Feithrin Llandâf.

Manylion pellach oddi wrth Anne Barlow, Ffôn 22238 neu, ar ôl 18 Medi, Mary Griffiths, Ffôn: 65001.

## BRYNTAF

Yn y Parêd
mae plant yn dweud,
'Dyma'r ysgol orau yn y byd'.
Mae tri llawr
a llyfrau heb glawr,
ond mae pawb yn dal i'w hoffi.

Ond erbyn hyn
mae'r llyfrau gwyn
yn mynd am daith fawr
i ysgol fach
mewn tref fach,
yr ysgol newydd sbon.

Ond mae'r plant yn cofio Bryntaf,
yr ysgol roedden nhw ynddi
yn fach.

Gwennan Ruddock
(8 oed)

## CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD.

### Y GWYDDONWYR I'R GAD

Wedi cyfnod cymharol dawel yn hanes y gangen leol, mae gwyddonwyr Caerdydd a'r cylch yn paratoi ar gyfer blwyddyn lawn o weithgareddau.

Cynhaliwyd cyfarfod yn ystod mis Gorffennaf i ailsefydlu Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd fel un o ganghennau'r Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol. Etholwyd Dr. Elwyn Hughes, Pentyrch, yn llywydd anrhydeddus, teyrnged i'w gyfraniad helaeth i wyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'i gefnogaeth i'r Gymdeithas Wyddonol o'r cychwyn cyntaf. Cadeirydd y gangen eleni fydd Glynn M. Owen o'r Adran Ffiseg Feddygol yn Ysbyty'r Brifysgol a'r cyd-ysgrifenyddion fydd Siân Gruffydd a Susan Thomas.

Dibenion y Gymdeithas yw trafod a lledaenu gwybodaeth o wyddoniaeth trwy'r Gymraeg ac i'r perwyl hwn mae'r gangen yn gobeithio cydweithredu'n agos â'r ysgolion Cymraeg yn Ne a Chanol Morgannwg yn ogystal â'r colegau a sefydliadau eraill yng nghylch Caerdydd.

Bydd y gangen yn cyfarfod yn rheolaidd ar y drydedd nos Iau yn y mis a chynhelir y cyfarfod cyntaf nos Iau, Hydref 21ain am 7.15 yn Adeilad Redwood, Athrofa'r Brifysgol pryd bydd yr Athro Des Evans, Adran Mathemateg Bur Coleg y Brifysgol, yn trafod 'Anfeidredd'.

Gwahoddir unrhyw un sydd am ragor o fanylion ynglŷn â rhaglen y flwyddyn a gwybodaeth bellach am weithgareddau'r Gymdeithas i gysylltu â'r Fns Susan Thomas, 69 Llandennis Ave., Cyncoed (Caerdydd 753386).



## CÔR CANOLFAN CAERDYDD

Os digwydd i chi alw heibio i Ganolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd, ar nos Iau, byddwch yn siwr o gael eich taro gan aelodau sy'n llifo i mewn i ystafell y côr. Côr Canolfan Caerdydd sydd wrthi yn ymarfer o dan eu harweinydd, Islwyn Evans, athro cerdd yn Nhrecelyn, Gwent.

Mae'r côr yn mwynhau cyfnod llwyddiannus ar hyn o bryd gyda nifer yr aelodau yn agos i hanner cant. Bwriad y côr yw cynnal un cyngerdd ffurfiol yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chyngherddau llai; Nosweithiau Llawen a hefyd cystadlu mewn eisteddfodau. Mae nifer fawr o gyhoeddiadau gennym eisoes wedi'u trefnu ar gyfer tymor yr hydref.

Yn ystod tymor yr hydref y llynedd, bu'r côr yn recordio ar gyfer y gyfres radio 'Gari ar Garlam' a chyfrannu at raglen y Dinesydd ar gyfer y gystadleuaeth rhwng papurau bro ar Radio Cymru.

Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd taith penwythnos i Orllewin Cymru ym mis Tachwedd. Ar y nos Sadwrn bu'r côr yn cynnal Noson Lawen yng Nghrymych ac ar y nos Sul rhoddwyd Cyngerdd o Fawl yng Nghapel Seion, Drefach, Llanelli. Yn ogystal â'r gwerthfawrogiad a gawsom, roedd hefyd yn llwyddiant cymdeithasol i'r côr.
Ar derfyn y tymor bu'r côr yn canu mewn oedfaon carolau yng Nghapeli Bethlehem, Gwaelod y Garth a Heol y Crwys, Caerdydd.

Bu aelodau'r côr hefyd yn helpu ieuenctid Côr yr Aelwyd i godi arian tuag at yr Anabl trwy ganu carolau yn Stryd y Frenhines ar y Sadwrn cyn y Nadolig.

Ym mis Ionawr cafwyd noson hwyliog yng nghwmni aelodau Tŷ Tawe yn Theatr Dylan Thomas, Abertawe - ond yn sicr, uchafbwynt y Gwanwyn ar ôl oriau hir o ymarfer oedd canu Offeren Requiem (Mozart) yng Nghapel Ebeneser, Heol Siarl.

Ym mis Mai recordiwyd y rhaglen 'Caniadaeth y Cysegr' i Radio Cymru, a chafwyd uchafbwynt arall i orffen y flwyddyn trwy gipio gwobr gyntaf yng Ngŵyl Fawr Aberteifi.

Hoffwn estyn gwahoddiad cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r côr. Mae ymarfer bob nos Iau, am 7.30 yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Bydd y tymor newydd yn dechrau ar Fedi'r 8fed.

## SAINSBURY YN DDI-GYMRAEG.

Beth sy gan Neuadd Dewi Sant a siopau newydd Sainsbury's yn gyffredin? Syml iawn - absenoldeb y Gymraeg yn y ddau le. Roedden i'n rhyw deimlo ar ôl gweld ymdrechion clodwiw siopau Habitat a Tesco i sicrhau bod eu holl arwyddion yn ddwyieithog, y byddai pob arch-farchnad newydd yn dilyn eu hesiampl ac yn rhoi lle priodol i'r Gymraeg. Nid felly Sainsbury yn ei siop newydd yn Colchester Avenue. Rwyf eisoes wedi achwyn wrth reolwyr y siop a braf yw deall fod nifer o bobl eraill wedi gwneud yr un peth.

Hoffwn annog pawb fydd yn siopa yn Sainsbury's yn y dyfodol i wneud yr un peth gan fy mod yn meddwl y byddant yn barod i ail feddwl am eu polisi dwyieithog os fydd yna ddigon o bwysau yn cael ei roddi arnynt. Mae'n fwriad gan y cwmni hwn i agor siop arall yn Thornhill, felly gadewch i ni gyd wasgu'n galed arnynt i sicrhau arwyddion dwyieithog yn y siop honno o'r dechrau.

Gyda llaw dylem ddal i bwyso ac ymgyrchu mwy ar yr awdurdodau yn Neuadd Dewi Sant i sicrhau eu bod yn newid eu polisi ynglŷn â'r iaith Gymraeg.

Ein Gohebydd Arbennig.

## CWMNI'R GADWYN

Cynhyrchiad o Y TAD A'R MAB gan John Gwilym Jones.

-------

### Y Cwmni

Ffurfiwyd y Cwmni yn Radyr, ger Caerdydd, ym 1981, i roi cyfle i actorion a thechnegwyr lleol i weithio ar ddramau trwy gyfrwng y Gymraeg. Sefydlwyd y cwmni gan Emyr Edwards, prif ddarlithydd mewn Astudiaethau Theatr ym Mholitechnig Cymru, a chyfarwyddwr Cwmni Theatr Ieuenctid Cenedlaethol yr Urdd. Cynhyrchiad cyntaf y cwmni oedd DOCTOR AR EI WAETHAF, cyfieithiad o waith Moliere gan Saunders Lewis. Cyflwynwyd y cynhyrchiad yma am ddwy noson yn stiwdio drama Ysgol Gyfun Radyr ym mis Mai 1982 i dai llawn. Mae'r actorion yn deillio o Radyr ac ardaloedd eraill o Dde Morgannwg. Fe gasglwyd cwmni cryf ar gyfer ail gynhyrchiad y cwmni sef Y TAD A'R MAB un o ddramau gorau John Gwilym Jones. Bydd y cwmni yn perfformio y ddrama hon nos Sul, Medi 18, ym mhrif theatr y Sherman am 7.30 o'r gloch. Mae actorion y cwmni amatur hwn yn dod o bob rhan o Dde Morgannwg mewn pob mathau o swyddi. Disgwylir yn y dyfodol i roi comisiynnau i ddramodwyr ifainc i ysgrifennu ar gyfer gweithgarwch y cwmni hwn.

### Y Ddrama

Y TAD A'R MAB yw un o ddramau gorau John Gwilym Jones. Mae'r sefyllfa yn y ddrama wedi ei seilio ar y gwrthdaro rhwng tad a mab. Mae'r tad yn tybio bod gallu ei fab uwchlaw'r cyffredin ac mae ganddo gynlluniau mawr ar gyfer dyfodol ei fab. Ond mae

Gwyn, ei fab, yn darganfod fod yna bethau eraill i fywyd hefyd, tu hwnt i orwelion academaidd a breuddwydion ei dad am ei ddyfodol. Mae Pegi, merch ifanc ddeniadol yn ei demtio o'i ddiniweidrwydd ansicr. Mae ei dad yn penderfynu delio â'r mater hwn, gyda chanlyniadau trasig. Mae gweithredoedd y tad yn disodli sefydlogrwydd y teulu i gyd, gan gynnwys Gwyn ei hun. Mae yna lawer o eiliadau gwych a chynhyrfus yn y ddrama hon. Mae hi eisoes wedi profi ei bod hi'n theatr ddeinamig mewn cynyrchiadau yn y gorffennol.


IOO IOO IOO IOO IOO IOO IOO
Bydd rhifyn mis Hydref o'r Dinesydd yn un arbennig iawn. Y CANFED.
Ceir cyfraniadau gan rai o gyn-olygyddion y papur; cystadlaethau cynhyrfus; gwobrau gwerthfawr a llu o ddathliadau eraill. Mae'r cyfan yn ein
CANFED RHIFYN
IOO IOO IOO IOO IOO IOO IOO

RHYDFELEN YN 21 -
CYFARCHION EI PHRIFATHRO CYNTAF.

Mae'n anodd credu fod un mlynedd ar hugain wedi treiglo ers pan agorwyd drysau Ysgol Rhydfelen am y tro cyntaf ar 3ydd o Fedi, 1962. Byddai'n dda iawn gen i wybod beth fu hynt a helynt pob un o'r 80 disgybl a gofrestrwyd ar y diwrnod arbennig hwnnw yn hanes addysg ym Morgannwg. Erbyn hyn mae o fewn yr hen Forgannwg (dalgylch Rhydfelen ar y cychwyn fwy neu lai) bump ysgol gyfun ddwyieithog - Rhydfelen, Ystalyfera, Llanhari, Glantaf, Cwm Rhymni a thros bedair mil o ddisgyblion yn mwynhau'r manteision hynny na ddaethant i ran yr un disgybl uwchradd yn Ne Cymru cyn 1962. Dros yr un mlynedd ar hugain o'i bodolaeth cofrestrwyd tua tair mil o ddisgyblion yn Rhydfelen, llawer ohonynt, erbyn hyn, yn dal swyddi dylanwadol yng Nghymru (be wnai'r cyfryngau heb y lleng o Rydfelen?) a nifer dda yn rhieni i blant ysgolion Cymraeg led-led Cymru. Mawr yw ein diolch i'r gwyrda hynny - pobl fel Gwyn Daniel, Raymond Edwards, Maxwell Evans, Gwyneth Morgan, George Davies - a fynnodd fod Rhydfelen yn bod; i'r rhieni cyntaf; rhieni a anfonodd eu plant mewn ffydd i'r cytiau coed yn feunyddiol blygeiniol o bob rhan o'r sir; ac i'r athrawon diflino a theyrngar a sicrhaodd na châi'r plant, eu rhieni na'r Awdurdod Addysg (a fu'n gyson gefnogol, yn swyddogion a chynghorwyr) eu siomi. Rhaid oedd ennill cefnogaeth rhieni, gan gynnwys llawer o rieni Cymraeg, a gwyddai pob athro yn Rhydfelen fod yn rhaid bodloni rhieni ar dir academaidd yn ogystal â'r ieithyddol a'r cymdeithasol : ond sicrhau cymdeithas hapus, fywiog, hyderus i'r disgyblion oedd ein nod pennaf.

Mae fy atgofion i fel prifathro ifanc a di-brofiad yn rhai melys a chyfoethog. Cofiaf yn arbennig y gymdeithas fywiog, hapus a gynhwysai blant o wahanol natur a chefndir - Y Rhondda, Aberdâr, Cwm Nedd, Y Barri a Chaerdydd yn unig ar y cychwyn; brwdfrydedd ac egni rhyfeddol y rhieni mewn garddwest, twmpath, darlith a'u parodrwydd i gario'r plant yn eu ceir o eithafoedd y sir ar unrhyw adeg o'r dydd neu nos; a theyrngarwch diflino fy nghyd athrawon er gwaethaf pob anhawster megis diffyg deunyddiau Cymraeg ar gyfer y gwersi.

Ni allai prifathro ofyn am fwy.

Wrth ddathlu penblwydd Rhydfelen yn un ar hugain oed, llawenhawn yn y cynnydd a fu yn y galw am ddarpariaeth ar gyfer addysg uwchradd ddwyieithog yn yr ardaloedd hyn a ledled Cymru oherwydd llwyddiant Rhydfelen, ond cofiwn mai yr un yw amodau llwyddiant unrhyw ysgol ddwyieithog heddiw fel yn 1962 - rhieni cefnogol, athrawon yr ail-filltir a chymdeithas ysgol lle rhoir pwys ar y gwerthoedd sylfaenol y mae eu hangen i feithrin Cymry diwylliedig a hyderus. "Deuparth ffordd - ei gwybod".

Fy llongyfarchion i Rydfelen ar ei dyfod i oed a phob dymuniad da i'r prifathro, staff a disgyblion presennol sy'n cael y fraint o fod yn rhan o'r ysgol orau yng Nghymru.

Gwilym E. Humphreys.

Clwb Ifor Bach - o tud. 8

Mari Emlyn
Mae galw wedi bod ers tro am glwb fel hwn. Dyw hi ddim yn iawn fod Cymry Cymraeg yn tyrru i un dafarn lle nad oes cydymdeimlad â'r Gymraeg. Mae'n braf gweld llawer o ddysgwyr yma, ac mae'n beth iach gweld pobl yn gwirfoddoli i weithio gyda'r nos.

Alan Jobbins
Rwy'n teimlo'n hapus ac yn obeithiol iawn ar ôl agor y clwb. Hoffwn i weld mwy o weithgareddau yma, fel cynghrair sgitls a dartiau, gwersi iaith, grŵp drama ac ati. A hefyd agor y ddau far fel bod llai o swn i'r rhai sydd ddim yn hoff o swn y bar mawr.

Richard Jones
Roedd hi'n hen bryd cael lle fel hyn. Mae'r safle yng nghanol y ddinas yn un da iawn, ac mae digon o gyfleusterau i ddenu pobl o bob oed.

David Boobier
Mae'r lle wedi profi'n llwyddiannus trwy ddod a phobl at ei gilydd. Roedd y cyngherddau, fel Dafydd Iwan, Sefydliad a Treiglad Pherffaith, yn llwyddiant mawr. Mae'n braf gallu dod i rywle a gwybod bod cwmni yma wastad.

Glyn Roberts (aelod o grŵp Brodyr Marx)
O safbwynt grwpiau dyw'r ystafell ar y llawr uchaf ddim yn addas iawn - mae gormod o atsain a dyw'r acoustics ddim yn dda. Ar ôl i'r lle gael trwydded hwyr ac ar ôl cael stiward llawn amser bydd pethau dipyn yn well.



# COFIO PARCHEDIG DAFYDD T. EVANS



Y Parch. D. T. Evans, M.A., B.D., L.R.A.M.

Yn ei Ail Lythyr i Timotheus y mae Paul yn diolch am gwmniaeth cyd Gristion o'r enw Onesifforus, gan ddweud amdano "canys efe a'm llonnodd yn fynych". A'r wythnos hon, ar ôl colli fy nghyfaill pennaf, dyna'r union ymadrodd sy'n mynnu aros yn y meddwl - "efe a'm llonnodd yn fynych".

Ar hyd y blynyddoedd, o ddyddiau mebyd ac ysgol a choleg, hyd at y dyddiau diwethaf, fe gawsom lawer iawn, iawn o hwyl gyda'n gilydd. Roedd yr un math o hiwmor yn apelio atom - arabedd nodweddiadol Cwm Tawe - hiwmor yr ergyd annisgwyl a'r feirniadaeth gymdeithasol - dychan y "canmol a'r shimplo yr un pryd" - ac yn bennaf oll y gwneud hwyl am ein pennau ni'n hunain. A dyna efallai gan fwyaf oedd cynnwys ein deuawdau radio.

Mae'n ddigon posibl na fyddwn i'n bersonol ddim wedi bod yn ddarlledwr o gwbwl oni bai i mi gychwyn yr yrfa honno mewn partneriaeth ddeuawdol gyda Dafydd. Roedd ei bresenoldeb cadarn ef wrth fy ymyl yn rhoi i laslanc ofnus fel fi, hyder parhaus. Fe oedd y gwir gerddor yn y bartneriaeth - gyda'i lais tenor persain hyderus. Yn y dyddiau cynnar fe arferai fynd at David Brazel yn Llanelli i gael hyfforddiant fel lleisiwr. Ac yn Eisteddfod Genedlaethol Ystradgynlais yn 1954 fe ennillodd Dafydd, yn haeddiannol iawn, ar yr unawd tenor. A bu galw cyson amdano wedyn fel unawdwr mewn cyngerdd ac oratorio - gan lonni cynulleidfaoedd niferus gyda'i ddawn arbennig. Ar ben hynny fe ddilynodd hyfforddiant pellach, a llwyddo i ennill gradd L.R.A.M.

Wrth gyfeirio gynne at Paul ac Onesifforus, dyfynnu o'r hen gyfieithiad o'r Testament Newydd wnes i. Mae'r cymal adnod yn y Cyfieithiad Newydd yn fwy awgrymiadol a pherthnasol fyth - dyma fe - "Dangosed yr Arglwydd drugaredd i dŷ Onesifforus oherwydd cododd ef fy nghalon droeon". Dyna yn wir oedd llonder ysbryd Dafydd. A mwy nag unwaith fe brofes i hynny ar ambell adeg anodd yn fy mywyd. Codi calon, meithrin hyder, cynnal ffydd - dyna fu gweinidogaeth Dafydd ar hyd ei fywyd. Ac fe wn i yn ddigon sicr y byddai pobol ei ofal yn Bryn Seion Glanaman ac yn Minny Street, Caerdydd, heb sôn am laweroedd eraill, yn ategu hynny hyd yr eithaf.

Onid hynny oedd thema ganolog ei araith ddadansoddol feistrolgar eleni fel Llywydd Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg? Y teitl i ddechrau - "Llwybr yr Adfywiad - o'r Aifft i Ganaan". Ie, llwybr yr Adfywiad - nid y Dirywiad. Mae 'na ddigon o ddoethion honedig sy'n barod i draethu'n hunanol huodl ar y Dirywiad. Pobol yr aeth "eu gwep a'u hwynepryd yn flin a gerwin i gyd".

A'r pontifficatwyr, cul eu gorwelion a chrintach eu hysbryd sy'n chwythu bygythion, mewn uchelwyliau emosiynnol, yn erbyn pawb - ond nhw eu hunain. Iddyn nhw, mae sacrosantrwydd eu credoau bach hunangyfiawn yn bwysicach o lawer na llonni ysbryd cyd-gredinwyr. Gwrandewch ar y ddynoliaeth braf a'r llawenydd ffydd, oedd yn eiddo i Dafydd, pan gyfeiriodd yn ei araith at honiad y pontifficatwyr nad yw hanner aelodau ein heglwysi yn Gristnogion o gwbwl! Dyma ei eiriau:

"Yr unig beth a ychwanegwn fan yma yw bod rhaid eu bugeilio'n gyntaf i ffeinio allan, ac efallai y cawn ein synnu gan y rhif sydd o hyd yn darllen eu Beiblau ac yn ymarfer gweddi yn gyson, er na ddônt eu hunaint i gwrdd gweddi. Pwy a ŵyr na chawn ein siomi ar yr ochor orau gan rif y rhai na blygodd glun i Baal".

Yna aeth Dafydd ymlaen i ysgrifennu hyn:

"Pan fod dyn yn dweud fod ganddo ffydd mewn person arall nid sôn am ei hunan y mae, ond am y person sydd yn deilwng o ffydd ac ymddiriedaeth eraill ynddo. Pan ddywedwn ni, "Mae gennyf ffydd yn yr Iesu", nid "Fi" yw gwir destun y frawddeg grefyddol ond y gwrthrych, sef Crist ei hun. Ar y sail yna dylem gyd-weithio a cherdded ymlaen ar daith yr adnewyddiad".

Ie - adnewyddu, llonni calon, cynnal ffydd - dyna oedd thema ei araith. A hynny yn sicr oedd egwyddor waelodol a chyson ei gymeriad, a'i weinidogaeth gwbwl anhunanol.

Yn ei gystudd hir a thrwm ni chafwyd ynddo yr un awgrym o hunandosturi - ond yn hytrach loywder a chadernid y Ffydd ddiffuant yng Nghrist ei Arglwydd.

Gwn fod rhai adnodau wedi bod yn ei feddwl, ac ar ei galon yn barhaus - yn eu plith yr oedd - "Digon i ti fy ngras i; mewn gwendid y daw fy nerth i'w anterth.....Canys pan wyf wan yna'r wyf gryf".

Bendith fo ar ei deulu annwyl - yn enwedig ei briod Lena. Sacrament o wir gariad oedd gweld y ddau, hyd y diwedd, yn llonni ysbryd ei gilydd.

Ifor Rees
(trwy ganiatâd y B.B.C.)

# YR AGORIAD

DWEUD BACH! gan

LEIGH VERRILL-RHYS

TLWS DYSGWR YR EISTEDDFOD

Fe ges i gyfle i fynychu rownd derfynol y gystadleuaeth "Tlws Dysgwr y Flwyddyn" yn Llangefni eleni. Roedd e'n gyfle da i weld yr hyn oedd y tu ôl i'r syniad.

Pan ddarllennais i'r pamffled fy hunan llynedd, roeddwn i'n deall bod y gystadleuaeth i fod i roi sylw i ddysgwyr ledled Cymru a dewis yr un sy'n profi ei fod e'n bosib dysgu'r iaith Gymraeg. Un o'r gofynion oedd disgrifio sut mae'r Gymraeg wedi newid eich bywyd, ac un arall oedd beth ydych chi'n ei wneud gyda'r iaith nawr.

Doedd dim llawer o ddysgwyr wedi cystadlu, dim ond pum deg pedwar o'r miloedd sy'n dysgu'r iaith ar hyn o bryd. Er bod y rhif yn fach, doedd dim graen ar y trefniadau yn ôl y cystadleuwyr eu hunain.

Beth bynnag, cyrhaeddodd pedwar y rownd derfynol, tair menyw ac un dyn. Y noson honno, roedd sgrîn fideo yn yr ystafell yn dangos ffilmiau oedd wedi'u gwneud gan HTV o'r cystadleuwyr, ac wedyn wynebodd y cystadleuwyr gwestiynau gan y beirniaid.

A dweud y gwir, faswn i ddim wedi hoffi beirniadu'r pedwar hyn. Roedd pob un yn sefyll dros yr iaith yn ei ffordd ei hunan. Roedd pob un yn rhugl. Roedd pob un yn byw yn feunyddiol cymaint â phosib drwy gyfrwng yr iaith.

Yn y diwedd enillodd un oedd yn aelod o'r Orsedd, yn aelod o Ferched y Wawr, yn ysgrifenwraig papur bro, ac yn aelod o'r 'Gymdeithas Gymraeg'.

Dod yn ail wnaeth un oedd wedi creu cymdeithas Gymraeg yn ei ardal a'i waith yng Ngwent wrth ddysgu'r iaith i'w gydweithwyr, ac roedd yn cynnal pedwar dosbarth nos ar un adeg.

Cyfartal trydydd oedd dwy fenyw. Roedd un o Ogledd America oedd wedi dychwelyd i'w gwreiddiau yng Nghymru dair blynedd yn ôl, ac ers hynny mae hi wedi datblygu ei diddordebau mewn dawns a cherddoriæth werin. Cymraes ddi-Gymraeg o Sir Fôn oedd y llall ond nawr mae hi'n gorffen gradd brifysgol yn Gymraeg a dechrau cyfieithu gwaith Dr. Kate Roberts i'r Saesneg.

O safbwynt syniad gwreiddiol y gystadleuaeth - sef tynnu sylw at ddysgwyr er mwyn codi diddordeb a chalonnau - mae'r pedwar hyn yn cynrychioli croesdoriad eang o ddysgwyr. Doedd dim ffordd i ddewis rhyngddynt wrth safon eu Cymraeg. Drannoeth, credai rhai fod y beirniaid wedi cefnogi 'syniad yr Eisteddfod' yn fwy na chwilio am ddysgwr oedd wedi goresgyn yr anawsterau mwyaf.

Ymysg rhai athrawon Cymraeg, roedd syniad y gystadleuaeth yn iawn ond, fel y dywedodd un ohonynt, "Mae pob dysgwr yn haeddu gwobr".

Does dim cystadleuaeth ym 1984 ond mae Cyngor yr Eisteddfod wedi addo sefydlu pwyllgor dysgwyr parhaol.

Geirfa

mynychu - to attend
dim graen ar - disorganised
beunyddiol - daily
cyfartal - equal
cynrychioli - to represent
croesdoriad eang - wide cross-section
goresgyn - to conquer

# CLWB IFOR BACH

Erbyn hyn, mae Clwb Ifor Bach, yn Stryd Womanby wedi hen ennill ei blwyf fel man cwrdd a chymdeithasu i Gymry Cymraeg y ddinas. Mae 'na lu o weithgareddau ar y gweill yn ystod tymor yr Hydref, ond beth am argraffiadau cyntaf rhai o aelodau'r Clwb:

Owen John Thomas (Cadeirydd)
Rwy wedi fy synnu o'r ochr orau o weld sut mae pethau wedi datblygu ac rwy'n gobeithio yr aiff pethau o nerth i nerth. Mae gennym gynlluniau i agor amser cinio, a datblygu'r bar ar y llawr gwaelod fel lolfa. Gobeithio y bydd 'na ddisgo bob nos Sadwrn a nosweithiau gwerin ac ati ar nos Wener. Yn y diwedd mae llwyddiant cymdeithasol a diwylliannol y clwb yn dibynnu ar ddatblygu'r lle fel man cyfarfod i bob math o gymdeithasau Cymraeg yn y ddinas. Ac fe hoffwn i weld nifer o gymdeithasau newydd yn deillio o'r clwb.

Nic ap Glyn (sy'n cyd-stiwardio dros dro)
Mae pethau'n mynd yn well na'r disgwyl. Er bod yr haf yn gyfnod tawel fel arfer mae'r lle wedi bod yn brysur iawn - ac eithrio wythnos yr Eisteddfod wrth gwrs. Mae 'na bobl gwahanol yn dod yma drwy'r amser, ac mae 'na dros chwe chant o aelodau yn barod. Ryn ni'n gobeithio cael stiward llawn amser cyn bo hir ac ehangu'r pwyllgor.

******************************

Bob nos Lun a nos Fercher bydd gornestau ceilys. Eisoes ffurfiwyd timau i'r ardaloedd canlynol: Plasnewydd, Waun Ddyfal (Cathays i chi a fi), Pentwyn, Yr Eglwysnewydd, Llandaf, Tregana, Pontcana a'r Mynydd Bychan. Mae 12 ymhob tîm a'r gobaith yw y bydd cyfle i bawb gael gêm. Rhowch eich enwau i lawr yng nghyntedd y clwb os oes gennych ddiddordeb.

Mae timau dartiau a snwcer i'w cael hefyd, ynghyd â thîm hoci merched (a ddylai fod yn ddiddorol!).

Cynhelir dosbarthiadau i ddysgwyr pur yno o leiaf ddwywaith yr wythnos a bydd dosbarth i ddysgwyr sydd a rhyw grap ar yr iaith bob nos Iau. Dosbarth gloywi fydd hwnnw.

Ar yr ochr adloniadol, bydd sêr bydoedd roc, pop a gwerin yn diddori yno ar nos Wener a nos Sadwrn. Pan na bydd gwestai arbennig, cynhelir disgo achlysurol ar nos Sadwrn.
Dim ond rhai o'r cynlluniau bras a grybwyllir yma. Mae'r manylion i gyd yn y clwb, wrth reswm.

i tud. 6

## COLOFN
### Shân Emlyn

Dyna fis Awst llawn ydy hi wedi bod. Dechreuodd yn fendigedig gydag Eisteddfod gyda'r gorau yn Llangefni. Yn wir, dyma brif ddinas ddiwylliannol ni Gymry Cymraeg, ac eleni yn fwy nag erioed cawsom ein boddi bron gan yr holl ddanteithion oedd ar ein cyfer. Methais yn lân â chyrraedd pob dim oeddwn am ei glywed.

Rhaglen y Dydd fu fy meibl am yr wythnos - y mwya erioed a'r tudalennau o wahanol liw yn ei gwneud hi'n hwylus i ddod i'w adnabod. Bu raid bodloni ar dreulio llai o amser nag erioed yn y pafiliwn, rhaid oedd dethol yn ofalus. Dim ond unwaith y bum ym mhagoda tarawiadol y Theatr Fach, a theirgwaith yn y Babell Lên. Braf meddwl y bydd Pabell Lên deilwng y flwyddyn nesa. Tybed a fydd modd cael gwell darpariaeth i Babell y Cymdeithasau. Llwm iawn oedd hi eleni ac wedi'i lleoli'r drws nesa i'r tai bach!

Yn yr eisteddfod cefais groesawu dau ffrind o'r Wladfa, Fred Green a Vali Iriani, y ddau yn dotio wrth glywed y Gymraeg ar y maes, ac yn dotio fwy fyth cyn lleied o Saesneg a glywid. Yn ddiweddarach ces y pleser o'u croesawu i'm cartra. Melys fu'r sgwrsio a chymharu argraffiadau'r ddau, Fred yma am y pumed tro a Vali am y tro cynta. Roedd tinc o ddwyster yn llais Fred fel petae'n synhwyro mai dyma efallai ei ymweliad ola â Chymru. Teimlai bod 'na hyder newydd yng Nghymru a bob hyn a hyn dywedai "mae'r llanw wedi troi - siwr i chi!". Gwefr darganfod a gweld oedd yn argraffiadau Vali, mae'n amlwg i'w breuddwyd gael ei gwireddu.

Does dim pwysicach yn y byd yn nag oes na phobol. Mae cwlwm cyfeillgarwch yn gallu trechu llywodraethau a phellteroedd maith. Da i mi oedd cael bod yn eu cwmni.

Bu mis Awst cystal â gwyliau cyfandirol i mi. Am wythnosau cawsom ein prydau bwyd yn yr ardd, a'r teclyn barbaciw wedi hen ennill ei le. Hawdd deall yr elfen "manana" yn fy ffrindiau Gwladfaol, fe orfododd gwres yr haf 'ma i minnau fabwysiadu'r elfen honno. Rhoddwyd llu o ddyletswyddau o'r naill du a hamddena efo teulu a ffrindiau. Bydd raid rywsut newid gêr i wynebu Bwrlwm Bro'r gaeaf!

# Y GOLOFN GAIN

**gan ARFON**

Bellach aeth yr Eisteddfod heibio a gallwn edrych yn ôl ar Brifwyl lwyddiannus iawn. Yn yr Adran Farddoniaeth ni ddaeth unrhyw wobr, hyd y gwelaf i, i Gaerdydd a'r Cylch. Er hynny, mae'n werth nodi mai enillwyr Ymryson y Beirdd oedd tîm 'Gweddill Cymru' a gan fod hanner y tîm hwnnw yn byw yn yr Eglwysnewydd mae'n dda cael dweud bod Tlws Coffa Rolant o Fôn (a roddwyd am y tro cyntaf eleni) yn cael ei gadw yn ddiogel yn y Brifddinas, am sbel fach o leiaf.

Un o gyfarfodydd y Babell Lên oedd o ddiddordeb arbennig i mi oedd hwnnw pan draddododd y Brifardd Dic Jones y feirniadaeth yn y gystadleuaeth am Dlws Barddas. Cynigiwyd y Tlws eleni am gasgliad o gerddi caeth gwreiddiol a daeth dau gasgliad i'r brig ond roedd ffresni a newydd-deb un ohonynt yn ennill y blaen. Llawenydd mawr oedd deall mai un o'n poetau ni, sef Emyr Lewis, Llysfaen, oedd y buddugwr, a braint a phleser mawr yw cael cyhoeddi un o'r cerddi yn y golofn y mis hwn:

CYMRU DDI-NIWCLIAR ?

'Yng Nghladd Tre-Cwn gwasanaetha gwyr
Y gallu gau'

'Rym ni oll yn gwasanaethu
yn ein ffordd fach ddistaw ni
ac mae'r Byd i gyd yn gwybod
bod ein gwlad yn Niwcliar-Ffri.

Mewn capeli ar y Sabboth
yn ein gwaith o ddydd i ddydd,
'rym ni oll yn gwasanaethu
ac mae Cymru'n Gymru Rydd.

Y mae gwaith y Gweddill Ffyddlon
fel y lefain yn y dorth,
er bod warheads yn Llanisien
a thaflegrau'n Aberporth.

Y mae gwaith y Gweddill Ffyddlon
fel y Tî-bag yn y te,
er bod jets yn gadael Breudeth
er mwyn bomio ym Mhenbre.

Y mae gwaith y Gweddill Ffyddlon
fel y saim mewn Marjarin,
er bod trainio ar y Bannau,
er bod tanio ym Mhenllyn.

Yn ein ffordd fach ddistaw hefyd
'ryn ni'n gwrthod gweld y gwir,
'rym ni'n dal i wasanaethu'r
Gallu Gau sydd yn y tir.

Emyr Lewis.

Llongyfarchion calonnog a diolch iddo. Cofiwch anfon eich deunydd ataf. Y cyfeiriad yw: Penmon, 31 Heol Don, Yr Eglwysnewydd.

PERSONOL

**Mae aelodau dosbarth 5N yn dymuno'n dda i Gareth Griffiths.**

IOO IOO IOO IOO IOO IOO IOO
IOO IOO IOO IOO IOO IOO IOO
Peidiwch ag anghofio ein canfed rhifyn, y mis nesaf.
Bydd yno enwau o'r gorffennol.
Gwobrau hael.
Cyfarchion arbennig.
Wynebau nas gwelwyd ers sbel.
Ac fe fyddwch chi yno, yn byddwch? Yn helpu i ddathlu canfed pen-blwydd y papur bro hynaf yng Nghymru.
Eich bro chi!
Eich papur chi!
Rydyn ni'n GANT!
IOO IOO IOO IOO IOO IOO IOO

CYMDEITHAS CYMRY'R EGLWYS-NEWYDD.

Cynhelir cyfarfodydd Cymdeithas Cymry'r Eglwys-newydd eleni yng Nghapel y Methodistiaid, Yr Eglwys-newydd (gyferbyn â'r Llyfrgell a Siop Jennifer). Croeso mawr i Gymry'r Eglwysnewydd i ymuno â'r Gymdeithas. Dyma eu rhaglen am y tymor nesaf:

Hydref 10: Y Llywydd (Mr. D. Gwyn Jones.

Tachwedd 14: Mrs. Beti Wyn Davies.

Rhagfyr 12: Mrs. Mair Robins a pharti plant Ysgol Melin Gruffydd.

Ionawr 3: Yng ngofal yr aelodau.

Chwefror 13: Dr. Wynne Samuel.

Mawrth 12: Dathlu Gŵyl Ddewi (Gŵr a Gwraig Gwadd - Parch a Mrs. Aled Gwyn).

---

I agor Tymor o Theatr Gymraeg yn Chapter, Caerdydd, gwahoddir BRITH GOF a CHWMNI THEATR CYMRU i gyflwyno GERNIKA, brosiect cyd-weithredol a grewyd yn arbennig ar gyfer y Brifwyl eleni. Cafodd y gwaith newydd pwysig hwn lwyddiant mawr a moliant dibrin gan gynulleidfaoedd yn ogystal ag adolygwyr, gan dorri ffiniau newydd yn y theatr gyfoes yng Nghymru.

Defnyddia'r cynhyrchiad hwn ddelweddau gwefreiddiol caneuon a ffynonellau hanesyddol, i ailgreu mewn gwedd emosiynol a grymus y digwyddiadau erchyll ar Ebrill 26, 1937, pan ddinistriwyd tref Gernika, canolfan ysbrydol y Basgwyr, yn llwyr gan drais y Ffasgwyr.

Dyma'r unig gyfle i gynulleidfaoedd y De weld y cynhyrchiad gwreiddiol a phwerus hwn.

"....Awr o gyffroi'r emosiynau, awr o ryfeddu at holl adnoddau'r llais dynol yn ganu, llafarganu a llefaru...mae grym y perfformiad cyfan yn blethiad o dalentau a dychymyg y gallai unrhyw genedl ymffrostio ynddo." (Adolygiad Eleri Rogers, Y Cymro, Awst 14,1983).

Chapter, 8.00 p.m., Medi 13 - 17, 1983.

MERCHED Y WAWR

Tra llonai'r haul ein calonau'n mis Gorffennaf, ymgynullodd merched holl ganghenau'r rhanbarth yng Ngholeg Cyncoed i 'Gadw Cwmni' â changen Caerdydd yn westai am y tro. Eisteddodd 170 wrth y byrddau ac wedi swpera'n fodlon, cawsom ein hanog a'n gogleisio ar brydiau â sgwrs gan Mrs. Mari James, Llangeitho. Yna fe'n diddanwyd gan ddwy o'n haelodau â'r delyn ac â chân. Yn ystod yr aduniad trosglwyddwyd llywyddiaeth y rhanbarth o ddwylo deheuig Mrs. Eirlys Davies i ddwylo parod Mrs. Minwel Tibbot.

Llywydd cangen Caerdydd y gaeaf yma fydd Mrs. Myfanwy Jarman, a dyma'r rhaglen fydd dan ei llaw:

..............

Medi 12:
Athrylith yr Iaith gyda Mary Wiliam.

Hydref 10:
Noson o adloniant yng nghwmni Côr Canolfan Caerdydd.

Tachwedd 14:
Bywyd a gwaith Joseph Parry gyda Dulais Rhys.

Rhagfyr 5:
Croesawu cangen y Barri.

Ionawr 9:
Crochenwaith Llanelli gyda John Rees.

Chwefror 13:
Gwanwyn yn yr Ardd gyda Patrick a Carys Whelan.

Mawrth 7:
Noson gyda'r Dysgwyr.

Ebrill 9:
Fy Newis I. Atgof mewn record a chrair.

Mai 11:
Crwydro Gwent yng nghwmni'r Dr. Gwynfor Jones.

..............

Beth amdani ferched? Mae rhyw sibrwd ymysg y morwydd fod Cangen Caerdydd yn cysgu uwchben ei thraed. Beth am i ferched y Dinesydd ymgynull yn festri capel Minny Street ar yr ail nos Lun ymhob mis? I ble yr aeth amryw o'r hen wynebau? Dowch i ni roi'n cangen ni ar y map. "I'r Gâd, I'r Gâd!"

CYMRY'R WENALLT

Yng nghyfarfod blynyddol Cymry'r Wenallt - cymdeithas o wŷr ardal Rhiwbeina - etholwyd Malcolm Bennett yn Gadeirydd am y flwyddyn 1983-84. Ei is-gadeirydd yw Rhys Morgan. Mae Iwan Jones yn dal yn drysorydd y Gymdeithas, ac etholwyd Wyn Roberts a Brian Griffiths yn aelodau o bwyllgor y Gymdeithas.
Fe gyfarfu'r Gymdeithas bob mis, fel rheol ar ail nos Wener y mis, am 8 o'r gloch yn nhafarn y Pantmawr yn Rhiwbeina. Yn ystod y flwyddyn nesaf ceir nosweithiau amrywiol yn cynnwys cyfarfodydd cymdeithasol fel noson gwis a noson geilys (skittles) a siaradwyr gwadd.
Dyma'r rhaglen hyd at ddiwedd 1983:

Nos Wener, Medi 16 (trydydd nos Wener y mis y tro hwn) yn y Pantmawr am 8 o'r gloch: Siaradwr gwadd: Huw Llywelyn Davies, BBC Cymru.

Nos Wener, Hydref 14eg yn y Masons Arms, Eglwysnewydd am 8 o'r gloch: Noson Geilys.

Nos Wener, Tachwedd 11eg yn y Pantmawr am 8 o'r gloch: Siaradwr gwadd: Gwynfor Hughes, Rhiwbeina, ar ei ymweliad â Rwsia.

Nos Wener, Rhagfyr 9fed yn y Pantmawr am 8 o'r gloch: Cwis.

CND CYMRAEG CAERDYDD

Mae'r grŵp wedi'i sefydlu a bellach mae gennym faner swyddogol hardd. Ymysg ein gweithgareddau am y tymor 1983/84 y mae:
i) cynhyrchu posteri a thaflenni yn Gymraeg;
ii) mynd i Lundain i orymdaith fawr YDN ar 22 Hydref;
iii) siaradwyr gwadd i'r cyfarfodydd;
iv) cynhadledd/cyfarfod arbennig i bobl ifainc.
Rydym yn cyfarfod ar y nos Lun cyntaf ymhob mis yn dechrau nos Lun, 5ed Medi am 7.30 yn Nhŷ'r Crynwyr, Heol Siarl.
Beth am wneud adduned ar ganol blwyddyn, i weithio dros heddwch a sicrhau dyfodol i'r byd? Mae croeso i bawb ddod yn aelodau o'r grŵp. Dewch i'r cyfarfodydd a chofiwch am 22 Hydref. Bydd trên yn mynd o Gaerdydd - os am sicrhau tocynnau, cysylltwch â mi - 752522 - cyn gynted ag y bo modd.

Meinir Vittle

HTV

## Ymchwilydd -Rhaglenni Ysgafn

Mae angen Ymchwilydd ar HTV Cymru i weithio ar raglenni adloniant ysgafn, comediau sefyllfa, rhaglenni cerdd, a rhaglenni plant. Dylai'r ymgeiswyr fod a phrofiad, neu o leiaf diddordeb byw, yn y mathau yma o raglenni, ac yn barod i ymuno a thim bywiog a gweithgar yn sefydlog yng Nghaerdydd.

Cyflog (o dan hyfforddiant):- £5,983 y flwyddyn. (Wedi gorffen hyfforddiant, bydd y cyflog rhwng £8,755 a £11,900 gan gynnwys atodiadau lleol).

Y swydd i gydymffurfio a'r cytundeb rhwng y cwmni ag undeb ACTT.

**Dylai ymgeiswyr ysgrifennu am ffurflen gais at: Y Rheolwr Personnel, HTV Cyfyngedig, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd, CF1 9XL. (Cyfeiriad DI/242).**

*RHYDD HTV GYFIE CYFARTAL I BAWB.*


Cyfres ddeniadol ar gyfer y rhai sy'n dechrau cael blas ar ddarllen yw'r casgliad o lyfrau ar Drenau, Awyrennau, Llongau a Ffermydd. Y mae llun lliwgar a difyr ar bob tudalen ac mae'r print yn fras i hwyluso'r darllen i'r plant ieuaf. Mae'n amlwg mai ar gyfer plant ifanc yn yr ysgol gynradd y bwriadwyd y rhain, ond y maent yn llyfrau sy'n cyflwyno ffeithiau sy'n ddiddorol inni i gyd.

<u>Ann Rosser</u>.


Theatr Cymru
yn cyflwyno

**TAIR CHWAER**

gan
Anton Tshechof

Cyfieithiad gan
Elin Wyn Roberts


**THEATR SHERMAN**

Swyddfa Docynnau: Caerdydd 30451

**Llun - Mawrth, 3-4 HYDREF**
**7.30**

*** TRI AM BRIS DAU** - bydd Theatr Cymru yn perfformio **SIWAN** (25-26 Hydref) ac **Y GELYN PENNAF** (20 Tachwedd) yn y Sherman yr hydref yma. Prynwch docynnau am y dair drama yn awr ac fe gewch un am ddim.


Gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru
chydweithrediad Cymdeithas Theatr Cymru


Berian Williams (addas.) <u>CALENDR Y COED</u>, Ivan Corbett (CBAC) £4.50
Juli Phillips, <u>MIDAS Y BRENIN GWIRION</u>, Gwasg y Dref Wen (CBAC) £1.90
Emily Huws (addas.) <u>NAWR GELLWCH CHI DDARLLEN A DYSGU</u>, Gwasg Gomer £1.10

Llyfr hyfryd ei gyflwyniad yw CALENDR Y COED. Fel mae'r teitl yn awgrymu y mae'n dilyn hynt coed gwahanol trwy fisoedd y flwyddyn. Y mae'r lluniau'n gelfydd a manwl a ffurf a chydbwysedd pob tudalen yn rhoi boddhad mawr. Llyfr i'w drysori yw hwn, a rhydd bleser i blant ac oedolion.

Llyfr bach hylaw a hwylus i'w ddarllen yw'r casgliad o chwedlau Groegaidd gan Juli Phillips. Fe'i bwriadwyd ar gyfer plant o chwech oed i fyny. Cofiaf glywed rhai o'r chwedlau hyn pan oeddwn yn 7 oed fy hun, a'u mwynhau'n fawr. Felly gwn y bydd y testun yn apelio at blant cynradd, a gwn hefyd fod yma ffynhonnell wybodaeth ddiddorol i blant hŷn. Defnyddiol yw'r crynodeb o 'pwy yw pwy ymhlith y duwiau' ar ddechrau'r llyfr!





<u>- GIBB'S</u>

Os ydych eisiau noson wahanol yn y dref, beth am daro i mewn i Gibb's yn Churchill Way. Clwb jazz sydd yma yn cynnig bwyd Americanaidd am bris rhesymol iawn. Agorwyd y clwb ym mis Mawrth gan John Gibbon o'r Fenni. Arferai John fod yn gerddor jazz proffesiynol yn Llundain, ond penderfynodd ddod nôl i Gymru i agor yr unig glwb nos jazz yn y wlad. Mae 'na jazz byw bob noson o'r wythnos, ar wahan i'r Sul, ac mae grwpiau ac unigolion gwadd yn cymryd rhan bob hyn a hyn. Bydd Georgie Fame yno ddiwedd Medi a Ronnie Scott ym mis Tachwedd.

Mae 'na bob math o 'hamburgers' yn Gibb's gydag enwau anhygoel fel "Jizzy's Delight". Gallaf argymell y burger gyda saws madarch, neu saws gwin. Mae awyrgylch hamddenol iawn yn Gibb's, byrddau bychain, cadeiriau cyffyrddus a'r gerddoriaeth jazz yn gefndir. Mae'r clwb yn agored bob nos o wyth tan un y bore. Hefyd mae'r clwb yn agored amser cinio o ganol dydd tan ddau. Does dim cerddoriaeth byw yno amser cinio, ond lle hwylus i daro mewn iddo wrth siopa, neu fel newid o'r cantîn yn y gwaith.

Elin Wyn Roberts

# Y CROESAIR – Ap Lewsyn    RHIF 35



AR DRAWS:

1. Troi un o'i fro gynefin. (7)
5. Pincas o greadur. (7)
9. "Mor ------- yw dy bebyll Di." (7)
10. Aderyn y coed sy'n plethu nyth ag us. (7)
11. Gwasgaroedd Mai Nest ei thalent ar deimladrwydd arwynebol. (15)
12. Rhif y don arbennig. (6)
14. O drin had fel y dylid, daw gwaith o drefniant dwyfol. (8)
17. "Doedd brad ddim yn iawn". Adfywiodd! (8)
18. Tŷ brics at wneuthur brics -- neu lestri. (6)
21. Yn eithafol o ddisynnwyr. (6,1,3,5)
24. Diwrnod ystormus. (3,4)
25. Gair am y gwyrda yn Jerwsalem ar Ddydd y Pentecost. (Actau 11) (7)
26. Rhinwedd llesol sy'n achos i lu o welliannau. (7)
27. "Ei dweud hi" gydag arddeliad y Gŵr Drwg. (7)

I LAWR:

1. Mae'r neb a sango hyn o ffordd droellog allan o gytundeb â'r rheol. (7)
2. Angerdd i ddilyn tref ym Meirion pan fu haul ar fryn yno. (9)
3. Mae'n rhaid dosbarthu digon i roi cyfran deg. (5)
4. Yr Ysbaenwr, ar ôl ofer drosi, yn cael diffyg gwres yma. (6)
5. Ymchwiliad i sut ydy'r diwygiad i ddod, yn gweld anwybyddu'r Gair. (8)
6. Yr hyn sy'n digwydd wrth fynd rownd y lle unwaith. (9)
7. Yn fath o le cysurus, diogel. (5)
8. Merch anghyffredin yn cynrychioli merched. (7)
13. Eglurais fod yr ad-drefnu yn boen i Sais. (9)
15. Trefn sy'n addo hel ar gyfer stori'r gorffennol. (9)
16. Llafar-ganu i ddal y gwynt? (4,4)
17. Mysgai. (7)
19. Glenys Mali Owen yn dangos ei bod hi'n gwamalu. (7)
20. Byddid yn dwyn barn ar droseddwyr. (6)
22. "Cael ----- cydwybod, a'i chlirio drwy'r gwaed" (5)
23. Swnia rhai o'ch aflonyddwyr fel cenfaint. (5)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 34

Ar Draws: 1. PETRISEN; 5. CANADA; 10. NAWSEIDDIR; 11. (a 6 i lawr) DI-ALW-AMDANO; 12. COLUDD; 13. MAWRNADAI; 14. RECORDIWYD; 17. LLETY; 19. AILLT; 20. BEIRNIADAI; 22. YMRODD-AIST; 24. IEUAN; 26. WARWS; 27. EANGFRYDIG; 28. NINEFE; 29. ADRODDGAN.

I Lawr: 1. PANT CORLAN YR WYN; 2. TRWBL; 3. IREIDD-DRA; 4. EIDDOM; 6. Gweler 11 uchod; 7. ATAL DWEUD; 8. ARWEINYDDION Y GAN; 9. AR GRWYDR; 15. COLLI'R TREN; 16. IDDEWIAETH; 18. DIEITHRIO; 21. ADDASAF; 23. TYNGED; 25. UNDEG.

Y GYSTADLEUAETH

Derbyniwyd wyth datrysiad cywir, ond yr enw a dynnwyd o'r het oedd eiddo Miss M. Davies, 96, Fairwood Road, Llandaf. Mae tocyn llyfr gwerth £5 ar ei ffordd iddi.

Cafwyd atebion cywir hefyd oddiwrth:- R. Williams, Heol Crystalwood; A.M.D., Creigiau; Nan Rees, Y Barri; Marged Davies, Llandaf; J. Phillips, Pentwyn; Beryl Hall, Cyncoed; Shân, Cyncoed.

Cynigir tocyn llyfr Cymraeg gwerth £5 y mis hwn eto. Tynnir un enw o'r het, a bydd pob datrysiad cywir a ddaw i law erbyn diwedd Medi yn cael siawns. Anfonwch eich atebion at Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed.


Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau Yswiriant Bywyd Pensiynau*





Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Hydref at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn Medi 16eg.



*Argraffwyd gan Fingerprints(TU), Caerdydd.* FDP 566